

LLAIS

Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care



**SBOTOLAU AR DDEFNYDD Y
GYMRAEG MEWN GWASANAETHAU
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

Ffornatau hygyrch

Mae'r dogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy:

ymholiadau@llaiscymru.org

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa

Sbotolau ar ddefnydd y Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Nid dewis yn unig yw gallu defnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; gall effeithio ar urddas, diogelwch a chanlyniadau pobl.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth pobl, eu lles a'u mynediad at ofal o safon. Mae dros 828,000 o bobl yng Nghymru (27% o'r boblogaeth) yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda chyfrannau llawer uwch mewn ardaloedd fel Gwynedd (72.7%), Ynys Môn (62.5%) a Cheredigion (56%). Er hynny, mae mynediad at wasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau'n anghyson ar draws Cymru.

Mae [Egwyddiorion y Bobl](#) yn nodi'r wyth disgwyliad sydd gan bobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys gallu cyfathrebu mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw a chael eu trin ag urddas a pharch. Mae'r profiadau a rannwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos nad dyma'r realiti eto i lawer o siaradwyr Cymraeg.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi'r hyn y mae Llais wedi'i glywed am ddefnydd y Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar brofiadau pobl, yn ogystal â'n gwaith gyda llunwyr polisi a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y maes.

Yng Nghymru, mae gan rai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddyletswydd gyfreithiol i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hyn wedi'i nodi yn [Safonau'r Iaith Gymraeg](#). Mae hyn yn golygu y dylai arwyddion, ffurflenni a gwasanaethau fod ar gael yn dwyieithog. Pan nad yw hyn yn digwydd, nid yw hynny'n siomedig yn unig; mae hefyd yn fethiant i fodloni gofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i bob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, megis meddygfeydd teulu. Fodd bynnag, rhaid i bob gwasanaeth gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a sicrhau eu bod yn trin pobl yn deg.

Felly, os yw rhywun ag anabledd neu sy'n byw gyda dementia yn ei chael hi'n haws cyfathrebu yn y Gymraeg, gallai methu â chynnig y gwasanaethau hynny olygu nad ydynt yn cael gofal cyfartal neu deg - hyd yn oed os nad yw'n ofynnol i'r gwasanaeth hwnnw ddilyn Safonau'r iaith Gymraeg.

Yn 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun pum-mlynedd o'r enw Mwy na geiriau i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llais wedi gweithio gyda thîm Mwy na geiriau i weld pa mor dda mae gwasanaethau'n cefnogi siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â mynd allan i gymunedau i glywed yn uniongyrchol gan bobl am eu profiadau.

Rydym wedi gwranddo ar bobl drwy weithgareddau ymgysylltu yn yr Eisteddfod genedlaethol, Eisteddod yr Urdd, lansio arolwg cenedlaethol, a thrwy ein gweithgareddau o ddydd i ddydd ledled Cymru. **Dyma'r hyn a glywsom.**

Beth ddywedodd pobl wrthym ni

Clywsom fwy gan bobl am eu profiadau o wasanaethau iechyd. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith i Safonau'r Iaith Gymraeg gael eu cyflwyno'n ddiweddarach yn y GIG. Gan fod gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod yn gweithio o fewn y safonau hyn ers cyfnod hirach, mae pobl yn aml yn profi mwy o gefnogaeth Gymraeg yn y maes hwnnw.

Dyma'r prif themâu a glywsom gan bobl am eu profiad o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol:

Balchder a chynhwysiant

“Roedd hi'n wych gallu trafod gyda meddyg yn y Gymraeg wrth drefnu'r apwyntiad. Ond roeddwn i'n teimlo fy mod yn creu gwaith ychwanegol ac yn achosi anghyfleustra wrth gyflwyno ffurflen yn y Gymraeg.”



Dyweddodd pobl eu bod yn teimlo balchder ac ymdeimlad o berthyn pan oeddent yn gallu defnyddio'r Gymraeg. Mae gallu siarad Cymraeg yn helpu pobl i deimlo eu bod yn rhan o'r broses, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu parchu. Pan nad yw gwasanaethau'n cynnig y Gymraeg, mae pobl yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu nad ydynt yn bwysig.

Dyweddodd nifer o blant yn Eisteddfod yr Urdd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi gallu siarad Cymraeg wrth weld deintydd.



“Profiad da gyda'r deintydd oherwydd eu bod nhw'n siarad Cymraeg.”

Ansawdd gofal

Dywedodd pobl wrthym am sefyllfaoedd lle'r oedd diffyg deunyddiau Cymraeg yn effeithio ar ansawdd gofal a diagnosisau posibl. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwiliad sy'n dangos y gall defnyddio ail iaith arwain at gamddealltwriaeth, camddiagnosis ac oedi mewn triniaeth, a chefnogaeth seicolegol waeth.

“Ni fyddai'r adran yn darparu deunydd Cymraeg ar gyfer prawf llygaid fy merch, felly nid oedd y prawf yn adlewyrchiad cywir - siomedig.”

“Cymraeg yw iaith gyntaf y plant. Roedd prawf llygaid yn Saesneg, ac nid oeddent yn gallu darllen y geiriau oherwydd diffyg gwybodaeth o'r Saesneg.”



Darpariaeth anghyson

Mae mynediad at wasanaethau Cymraeg yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru.

Er bod 27% o bobl Cymru yn gallu siarad Cymraeg, mae data StatsWales 2024 yn dangos mai dim ond 12.6% o feddygon teulu sydd â sgiliau Cymraeg uwch neu hyfedr. Mewn rhai byrddau iechyd, mae'r ffigur hwn mor isel â 5%. Mae hyn yn creu bwlch sylweddol rhwng anghenion pobl a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Mewn ardaloedd fel Gogledd a Gorllewin Cymru, lle mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg, clywsom am well mynediad at wasanaethau Cymraeg. Mewn ardaloedd eraill, megis Caerdydd a Chasnewydd, dywedodd pobl ei bod yn anoddach defnyddio'r Gymraeg.



“Ar ôl symud meddygfa (GP), gofynnais a oedd meddyg Cymraeg ei iaith yno. Nid oedd y person yn anghwrtais, ond doedd hi ddim yn gwybod ac roedd hi’n ymddangos yn synnu fy mod yn gofyn.”



Nid yw arwyddion, taflenni, ffurflenni a holiaduron bob amser ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd â’r Saesneg. Gall hyn beri i bobl deimlo’n rhwystredig neu fel pe baent yn achosi anghyfleustra wrth ofyn.

Dyweddodd rhai hefyd fod systemau cofrestru yn troi’n ôl i’r Saesneg, hyd yn oed pan oeddent wedi dewis y Gymraeg fel eu dewis iaith. Roeddent yn teimlo bod hyn yn adlewyrchu problemau ehangach mewn gwasanaethau lle nad yw dewisiadau iaith Gymraeg yn cael eu blaenoriaethu na’u parchu yn ymarferol.



“Wrth lenwi holiadur ar ddiwedd yr ymweliad i roi adborth ar y gwasanaeth, nid oedd ffurflen Gymraeg ar gael. Roedd rhaid i mi ofyn am ffurflen yn y Gymraeg ac nid oedd ar gael ar y fan a’r lle. Bu’n rhaid i’r aelod o staff fynd i chwilio am un ac felly bu oedi wrth aros.”

Lles

I lawer o bobl, nid mater ymarferol yn unig yw defnyddio'r Gymraeg; mae hefyd yn gwella lles emosiynol. Roedd pobl yn gwerthfawrogi pan oedd staff neu ofalwyr yn siarad Cymraeg, yn enwedig pan oeddent yn sâl neu'n bryderus, gan ei fod yn gwneud iddynt deimlo'n hapusach ac yn gwneud cyfathrebu'n haws.



“Cadarnhaol iawn... staff yn wych. Roedden nhw'n holi am ddewis iaith a'r dewis i siarad yn Gymraeg. Mae bod yn glaf yn wahanol iawn i'm gwaith arferol o ddydd i ddydd yn y byd iechyd - bod mewn poen, roedd defnyddio fy iaith gyntaf i esbonio symptomau yn hynod bwysig os nad yn hanfodol.”

“Roedd y staff yn hyfryd, ond byddai gallu siarad â rhywun yn Gymraeg wedi lleddfu'r boen i mi.”

Roedd methu defnyddio'r Gymraeg yn cael effaith emosiynol ddyfnach i rai, gan arwain at deimladau o embaras, tristwch, neu hyd yn oed iselder. Roedden nhw'n teimlo bod ganddynt ofal gwael pan nad oeddent yn gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf, yn enwedig mewn sefyllfaoedd sensitif fel trafod pryderon iechyd.

Mae hyn yn arbennig o wir i bobl mewn sefyllfaoedd bregus, fel plant, pobl hŷn, a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae rhai pobl yn dweud ei fod wedi gwaethygu eu cyflyrau. Roedd methu mynegi emosiynau a theimladau personol yn Gymraeg yn creu rhwystr i dderbyn gofal effeithiol.

Clywsom hefyd am yr effaith ar blant mewn gofal pan nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r Gymraeg.

“Rwy’n dioddef o iselder ac yn ei chael hi’n anodd cyfleu fy nheimpladau pan nad wyf yn defnyddio’r iaith y cefais fy magu i’w siarad.

“Ofnadwy. Teimlo nad oeddwn i’n ddigon pwysig iddyn nhw ystyried bod angen i mi drin a thrafod yn fy iaith gyntaf. Alla i ddim esbonio pethau’n dda yn fy ail iaith, Saesneg.”



Rydym wedi clywed y gall plant sy’n cael eu lleoli i ffwrdd o ardaloedd Cymraeg eu hiaith, neu mewn lleoliadau lle nad yw’r Gymraeg yn cael ei chefnogi, brofi colli hunaniaeth, hyder a chysylltiad.

I blant a phobl ifanc sydd eisoes yn wynebu aflonyddwch ac ansefydlogrwydd, gall peidio â gallu defnyddio eu hiaith gyntaf gynyddu teimpladau o unigedd a’i gwneud hi’n anoddach mynegi eu hunain, meithrin perthnasoedd a theimlo’n gartrefol. Mae hyn yn dangos nad yw mynediad at y Gymraeg yn ymwneud â chyfathrebu yn unig, ond â diogelwch emosiynol, perthyn, a darparu gofal diogel sy’n canolbwyntio ar y plentyn.



Ynysu

Yn aml, mae pobl yn teimlo'n ynysig pan na allant ddefnyddio'r Gymraeg. Nid yw ysbytai a gwasanaethau gofal bob amser yn gofyn am ddewisiadau iaith, gan adael pobl yn teimlo'n unig ac wedi'u datgysylltu.

“Gall pobl â dementia deimlo'n ynysig iawn yn yr ysbyty pan nad yw pobl yn siarad yr un iaith - dydyn nhw ddim yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthyn nhw ac ni allant ofyn yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wybod.

“Roedd fy ngŵr yn siaradwr Cymraeg, roedd yn aml yn teimlo ar ei ben ei hun yn yr ysbyty gan nad oedd yr un o'r staff yn siarad Cymraeg ag ef, roedd yn hapus pan fyddai claf yn cael ei dderbyn a oedd yn siarad Cymraeg, roedd yn gwneud iddo deimlo'n gyfforddus. Doeddwn i ddim gydag e pan fu farw, dywedodd ei ffrind wrtha i'w fod wedi siarad ag e cyn iddo farw. Rhoddodd ryw faint o gysur i mi wybod ei fod wedi clywed rhyw faint o Gymraeg cyn y diwedd.”



Roedd peidio â chael eu gofyn am eu dewis iaith, yn enwedig mewn sefyllfaoedd agored i niwed, yn gwaethygu'r teimladau hyn.

“Roeddwn i dan straen aruthrol yn poeni am y prawf, oherwydd pryderon y gallai fod yn salwch eithaf difrifol. Doedd neb a welais i ddim yn siarad Cymraeg ac ni ofynnwyd i mi am fy newis iaith.”

Ein galwadau am newid

O'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu, mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn anghyson o ran cyflawni eu dyletswyddau o ran Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae'r profiadau a rannwyd gyda ni yn dangos bod profiadau pobl yn dal i amrywio yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw neu ba wasanaeth maen nhw'n ei ddefnyddio. Mae Egwyddorion y Bobl yn gosod disgwyliad clir o gysondeb, ond nid dyma'r realiti eto i lawer o siaradwyr Cymraeg.

Mae cynghorau lleol, sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, wedi dilyn Safonau'r Iaith Gymraeg ers 2016. Ymunodd byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ddiweddarach, ar ôl 2018, ac maent yn dal i weithio ar ddyletswyddau allweddol fel cynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg. Mae'r oedi hwn weithiau'n golygu bod gwasanaethau iechyd ar ei hôl hi o ran gofal cymdeithasol, lle mae mynediad at y Gymraeg yn aml yn well.

Roedd casgliadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mewn [adroddiad diweddar](#) yn canolbwyntio a'r heriau parhaus a gwelliant, gan atgyfnerthu'r angen am systemau cryfach, datblygu'r gweithlu a gweithredu cymorth Cymraeg yn gyson ar draws gwasanaethau gofal iechyd.

Er ein bod yn deall bod llawer o bwysau a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, mae pobl yn teimlo'r effaith pan nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn croesawu lansiad y cwrs Croeso newydd, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, sy'n anelu at helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn rhyngweithiadau bob dydd. Mae hwn yn gam cadarnhaol tuag at wella'r Cynnig Gweithredol a gwneud gwasanaethau'n fwy cynhwysol.

Rydym yn annog pob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad staff yn y cwrs hwn, yn enwedig y rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr newydd.

Rhannodd pobl syniadau ymarferol gyda ni i wella gwasanaethau ac rydym wedi defnyddio'r hyn a ddywedasant wrthym am alw am y camau gweithredu canlynol:





1. Cynnig Rhagweithiol

Galw: Sefydliadau'r GIG ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod y Cynnig Gweithredol yn cael ei weithredu'n ehangach ledled Cymru fel nad oes rhaid i bobl ofyn am wasanaethau yn y Gymraeg.

Rhaid i Fyrddau lechyd, Awdurdodau Lleol a phartneriaid ystyried anghenion yr iaith Gymraeg wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ar draws y ffin yn Lloegr.

Pam: Mae pobl yn teimlo eu bod wedi cael eu diystyru neu fel pe baent yn achosi anghyfleustra pan fydd yn rhaid iddyn nhw ofyn am wasanaethau Cymraeg.

Mae peidio â gofyn am ddewis iaith yn arwain at deimladau o ynysu a gofal gwaeth, yn enwedig i bobl mewn sefyllfaoedd agored i niwed.



2. Cydweithio

Galw: Rhaid i sefydliadau'r GIG ac Awdurdodau Lleol barhau i gydweithio â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a sefydliadau'r iaith Gymraeg i gyflawni dyletswyddau'r iaith Gymraeg a gwella mynediad at wasanaethau dwyieithog.

Pam: Mae'r ddarpariaeth yn anghyson ar draws rhanbarthau.

Bydd cydweithio yn helpu i wella dysgu a rennir, cysondeb a momentwm.

Rydym yn croesawu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru, gan gynnwys:

- Mae'r Fforwm Cyd-reoleiddwyr Safonau'r Iaith Gymraeg, sy'n dwyn ynghyd reoleiddwyr proffesiynol fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal ac eraill i rannu arferion da ac ymdrin â heriau. Mae'r rheoleiddwyr hyn yn dylanwadu ar safonau proffesiynol a hyfforddiant, a all helpu i wneud defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhan o ofal bob dydd.
- Mae'r Fforwm Swyddogion yr Iaith Gymraeg, a gydlynir gan Mwy na Geiriau, yn cefnogi byrddau iechyd i gydlynu ymdrechion a rhannu dysgu.
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud llawer o waith i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys datblygu hyfforddiant ac adnoddau **Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**.
- Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi ymgorffori ystyriaethau iaith Gymraeg yn ei rhaglenni arolygu, gan gynnwys adolygu a yw gwasanaethau'n cofnodi dewisiadau iaith, darparu gwybodaeth ddwyieithog, adnabod staff sy'n siarad Cymraeg, a chyflwyno'r Cynnig Gweithredol.
- Mae Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) bellach yn ddarostyngedig i Safonau'r Iaith Gymraeg a disgwylir iddo chwarae rhan wrth gryfhau'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn y gweithlu gofal iechyd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i AaGIC integreiddio sgiliau iaith Gymraeg i recriwtio a hyfforddi, cefnogi staff i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod strategaethau gweithlu'r dyfodol yn adlewyrchu anghenion pobl sy'n siarad Cymraeg.
- Mae **Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2024 – 2025** yn dangos bod cynnydd ar ofal dementia yn y Gymraeg wedi arafu ers 2018, ac mae angen gweld momentwm ar frys. Bydd yr is-grŵp dementia a'r iaith Gymraeg sydd wedi'i ailsefydlu yn helpu i lunio Cynllun Gweithredu Cymru newydd ar gyfer dementia.
- Mae'r Fforwm Iechyd a Gofal dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg yn fforwm strategol a sefydlwyd ar y cyd gyda Thîm Polisi Mwy na Geiriau y Llywodraeth er mwyn helpu byrddau iechyd i weithredu eu cynlluniau pum mlynedd o dan Safon 110, i wella darpariaeth ymgynghoriadau clinigol Cymraeg.

Mae'r fforymau hyn yn dangos bod sefydliadau'n dod at ei gilydd gyda phwrpas cyffredin o amgylch yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae profiadau pobl yn dweud wrthym fod yn rhaid i'r ymdrechion hyn nawr drosi'n newidiadau cyson y gall pobl eu gweld a'u clywed ar draws pob gwasanaeth. Mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau nad polisi yn unig yw'r Cynnig Gweithredol ond arfer bob dydd.



3. Gwasanaethau sy'n sensitif i ddiwylliant

Galw: Rhaid i sefydliadau'r GIG ac Awdurdodau Lleol sicrhau bod staff yn ymwybodol o arwyddocâd diwylliannol yr iaith Gymraeg, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n ei siarad yn rhugl, gan osgoi sylwadau a allai wneud i bobl deimlo'n anghyfforddus neu'n ynysig.

Pam: Adroddodd pobl eu bod yn teimlo'n cael eu dieithrio neu eu tanbrizio pan wnaeth staff sylwadau diystyriol neu pan fethodd â chydabod hunaniaeth Gymreig. Mae sensitifrwydd diwylliannol yn gwella ymddiriedaeth, lles a chynhwysiant, sy'n hanfodol ar gyfer gofal o safon.



4. Ymwybyddiaeth

Galw: Sefydliadau'r GIG ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod yr holl staff, yn enwedig yn y dderbynfa, yn gwybod pa weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol all ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Pam: Yn aml, ni ofynnwyd i bobl am eu dewis iaith ac nid oeddent yn gwybod pwy allai siarad Cymraeg. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn yn creu rhwystrau a rhwystredigaeth. Mae camau syml fel bathodynau a chyfeiriaduron gweladwy yn gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch ac yn lleihau straen i bobl.



5. Cefnogaeth cyfieithydd

Galw: Ochr yn ochr â'r flaenoriaeth o gryfhau gweithrediad y cynnig gweithredol, rhaid hefyd fod mynediad mwy cyson at gyfieithwyr pan nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Mae hyn yn arbennig o hanfodol ar gyfer sgysiau pwysig, sensitif a risg uchel.

Pam: Gall cam-gyfathrebu mewn ail iaith arwain at gamddiagnosis, oedi a gofid emosiynol. Ar gyfer sefyllfaoedd sensitif fel iechyd meddwl neu ofal diwedd oes, mae cyfieithu yn hanfodol ar gyfer urddas, diogelwch a gofal cywir.



Gweithred Llais

Mewn ymateb i'r hyn a glywsom, byddwn yn:

- Parhau i wrando ar brofiadau pobl o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gofal iechyd a chymdeithasol a lleisio barn pan nad yw pethau'n iawn.
- Rhannu enghreifftiau da o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gofal iechyd a chymdeithasol gyda phob gwasanaeth ac annog eraill i wneud yr un peth os yw'n addas ar gyfer eu gwasanaethau.
- Gweithio gyda thîm Mwy na Geiriau, a sefydliadau eraill yr iaith Gymraeg, i archwilio meysydd sydd angen ymchwil pellach.
- Recriwtio mwy o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i gryfhau ein cynrychiolaeth ac ehangu lleisiau Cymru.

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod pawb yng Nghymru yn derbyn y gofal a'r parch y maent yn ei haeddu yn eu dewis iaith.

Cysylltwch â ni

Os hoffech roi adborth i ni ar y cyhoeddiad hwn neu os hoffech dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy'r manylion isod.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg.

Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

**Llais
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ**

**02920 235 558
ymholiadau@llaiscymru.org
www.llaiscymru.org**

